



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Tachwedd 2019 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafilynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd H Boggis	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S. Bradwick	Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd A Crimmings	Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd A Davies-Jones	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Evans	Y Cynghorydd S M Evans
Y Cynghorydd M Forey	Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd E George	Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd M Griffiths	Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P Howe	Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd P Jarman	Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd L Jones	Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd A Morgan	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd S Morgans	Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd D Owen-Jones	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd S Pickering	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S M Powell	Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd S Rees-Owen	Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd E Stephens	Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd R Turner
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd M Webber	Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd G Williams	Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd C Willis	Y Cynghorydd R Yeo

Swyddogion yn bresennol

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen

79 Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Belzak, J. Brencher, A. Chapman, L. De Vet, M. Diamond, M. Fidler Jones, H. Fychan, J. James, K. L. Jones, W. Lewis, M. Tegg, E. Webster a T. Williams.

80 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 11 - Cymuned ar y Cyd – Diwygio'r Siarter

- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Ffynnon Taf/Nantgarw"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Dan Owen-Jones y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Tonyrefail"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Tonyrefail"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Davies-Jones y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Tonyrefail"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M J Powell y buddiant personol canlynol - "Aelod o Gyngor Tref Pontypridd"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Powell y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llantrisant"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill y buddiant personol canlynol - "Aelod o Gyngor Tref Pontypridd"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol L Walker y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llanilltud Faerdref"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llanharan"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Turner y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llanharan"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Pont-y-clun"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Roberts y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned y Gilfach-goch"
- Cyhoeddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol W Owen y buddiant personol a ganlyn - "Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari"

81 Cyhoeddiadau

- Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am gefnogaeth yr Aelodau i helpu i godi arian at yr elusen "Cyfeillion Anifeiliaid Cymru" trwy brynu calendrau sydd ar werth ar gyfer yr achos.
- Roedd y Dirprwy Arweinydd yn dymuno llongyfarch Emma ac Andy Wilkins ar enedigaeth ddiweddar eu merch, yn ogystal â Rachel James ar enedigaeth ei merch;

- Talodd y Dirprwy Arweinydd deyrnged i Rob Griffiths, goruchwyliwr safle, a fyddai'n ymddeol o'r Awdurdod cyn bo hir a mynegodd ei diolchgarwch, ar ran yr holl Aelodau am ei wasanaeth hir.
- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan yn dymuno talu teyrnged i ddinesydd sy'n ymwybodol o'r amgylchedd, Mr M Jenkins, am ei ymdrechion ailgylchu yn y gymuned ac am godi ymwybyddiaeth o'r materion trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at ardaloedd penodol yn ei ward lle mae Mr Jenkins wedi canolbwyntio ei ymdrechion ailgylchu fel Parc Aberdâr, Parc Gwledig Cwm Dâr ac Ysgol Bedyddwyr Sant Ioan, Cwmdâr.
- Ar ran Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Tegg, canmolodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones waith 'Lindsay Leg Club Foundation', sy'n darparu gofal parhaus i breswylwyr â phroblemau coesau yn wythnosol yn Nhrebanog. Dywedwyd mai'r Cynghorydd Tegg a ffurfiodd y Pwyllgor, sydd â mwy na 100 o aelodau bellach, a hi yw'r Cadeirydd presennol. Y llynedd cafodd y gwaith gydnabyddiaeth genedlaethol a nodwyd y byddai llythyr yn cydnabod y gwaith da yn cael ei anfon at y sefydliad ar ran y Maer.

82 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor Llawn gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019 yn gofnodion cywir yn dilyn y newid canlynol:

Cofnod 70 (3) - Cofnod ddarllen - "ers y dyddiad hwnnw mae'r cyllid wedi newid o Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid i gyllid TRI wedi'i dargedu"

83 Datganiadau

Datganiad Arweinydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan – Ymgynghoriad ar Refeniw'r Gyllideb

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau, yn dilyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol, bod Setliad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol. Mae hyn wedi arwain at orfod cynnal Ymgynghoriad ar Refeniw'r Gyllideb ar gyfer y Cyngor yma fesul cam. Mae'r cam lefel uchel cyntaf eisoes ar y gweill gyda'r dyddiad cau ar gyfer 16 Rhagfyr 2019 yn profi'n heriol oherwydd yr Etholiad. Bydd cam dau yn cychwyn ym mis Ionawr / Chwefror 2020.

Dywedodd yr Arweinydd y cynghorwyd yr Aelodau bod ansicrwydd oherwydd yr oedi cyn cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol dros dro gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu haildrefnu fel y bo'n briodol i fodloni'r dyddiad cau Statudol cyn 11 Mawrth 2020.

84 Cwestiynau gan yr Aelodau

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"Allai'r Aelod o'r Cabinet amlinellu sut mae'r Cyngor yma yn cefnogi RhCT Iach a Heini?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

“Dywedodd y Cyngorydd Crimmings ei bod yn falch o gefnogi Rhondda Cynon Taf iach yn unol â'r tri phrif ffocws - buddsoddiad, ysgolion a'r gymuned

Amlinellodd yr Aelod Cabinet y rhaglen bum mlynedd “buddsoddi i arbed” yng nghyfleusterau ffitrwydd a hamdden y Cyngor, sydd wedi gweld aelodaeth Hamdden am Oes yn codi'n gyson uwchlaw'r targed o 10,000, ac mae canolfannau hamdden yn rhagori ar ei ffigurau ymwelwyr yn 2018/19. Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf hefyd wedi uwchraddio 111 (51%) o gyfleusterau chwarae awyr agored y Cyngor, a datblygu 14 o gaeau artiffisial newydd, sydd wedi galluogi cyrchu cyllid allanol pellach o dros £500,000.

Yn ogystal, dywedodd y Cyngorydd Crimmings fod y timau Datblygu Chwaraeon ac Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ystod eang o wasanaethau â chymorth a ariennir gan grant ar gyfer preswylwyr mwy sydd ddim mor weithgar, fel y cynllun 'Get Out Get Active'.

Atgoffodd y Cyngorydd Crimmings yr Aelodau fod y gwasanaeth Hamdden yn gweithio'n agos gydag ysgolion a staff ysgolion i sicrhau bod gan blant y sgiliau llythrennedd corfforol a'r cyfleoedd i fod yn egniol am oes. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a rheoli cyfleusterau fel rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif fel Ysgol Gymunedol Aberdâr a stadiwm athletau Ron Jones, a chaeau artiffisial yn ysgolion Tonyrefail, Garth Olwg, Y Pant, Bryncelynnog a Nantgwyn. Mae'r Cyngor yn cefnogi 50 o Lysgenhadon Ifanc mewn ysgolion, sy'n datblygu eu sgiliau eu hunain trwy ddarparu cyfleoedd i'w cyfoedion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd, ac mae'n cyflwyno rhaglen nofio gynhwysfawr ar gyfer disgyblion iau.

I gloi nododd y Cyngorydd Crimmings fod y Cyngor wedi cael gafael ar gyllid grant i'w alluogi i weithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cynaliadwy newydd yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect 'Superagers' mewn partneriaeth â Chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr, tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, a'r sector gwirfoddol er mwyn datblygu mwy o allu cymunedol i ddarparu cyfleoedd ymarfer corff cynaliadwy i drigolion hŷn a datblygu grwpiau awyr agored.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'n colegau a'n prifysgolion i recriwtio a defnyddio bron i 200 o wirfoddolwyr i gefnogi chwaraeon cymunedol ac mewn ysgolion yn flynyddol. Mae hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd am weithgarwch corfforol cymunedol trwy ddarparu hyfforddiant, grantiau cist cymunedol, a chefnogaeth i glybiau. Yn ogystal ag ehangu'r clybiau chwaraeon traddodiadol, mae enghreifftiau'n cynnwys cefnogi Sefydliad y Merched yn Llanilltud Faerdref i ddarparu sesiynau pêl-rwyd cerdded cynaliadwy ”.

Doedd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M Forey ddim cwestiynau dilynol i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Buddsoddiad yn ein Priffyrdd

yn Hirwaun?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Dyweddod y Cyngorydd A Morgan fod y Cyngor wedi buddsoddi cyfanswm o £791,869.70 yn y maes yma ar draws ward Hirwaun ers 2011.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon gwelwyd buddsoddiad o £336,649 ar gyfer cerbydau, troedffyrdd a strwythurau, gyda'r £447,226.45 sy'n weddill yn cael ei fuddsoddi mewn gwelliannau priffyrdd ers 2011.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol K.Morgan

"Croesawodd y Cyngorydd Morgan waith cynnal a chadw rheolaidd ond pwysleisiodd fod diffyg buddsoddiad mewn pentrefi a threfi, a gorddibyniaeth ar y system gynllunio ac ar ystadegau damweiniau sy'n hyrwyddo ymateb 'adweithiol'. Gofynnodd y Cyngorydd Morgan am system rheoli traffig fwy rhagweithiol."

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Esboniodd y Cyngorydd Morgan fod cyllid yn cael ei dargedu tuag at ardaloedd lle mae nifer uchel o ddamweiniau wedi'u cofnodi, a bod rhan sylweddol o'r cyllid wedi'i ddyrannu i gamerâu digidol newydd y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth i erlyn gyrywyr. Dywedodd y Cyngorydd Morgan y gellir edrych ar feysydd pryder penodol fel deuoli cylchfan Blaenau'r Cymoedd a'r lonydd cul trwy bentref Hirwaun."

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, D R Bevan:

"A allai'r Aelod o'r Cabinet amlinellu pa gamau y mae'r Cyngor hwn yn eu cymryd i gefnogi busnesau a'r economi leol ar draws Rhondda Cynon Taf?"

"Cyn ymateb, dymunodd y Cyngorydd Bevan wellhad buan i fam y Cyngorydd Morgan. Dywedodd fod y Cyngor wedi ymrwymo i dwf ac adfywiad y Fwrdeistref Sirol, ac yn darparu pecyn cymorth wedi'i dargedu, â ffocws a chydlyniant ar gyfer busnesau gan gynnwys y Gronfa Buddsoddi Menter sydd, trwy fuddsoddiad blynyddol o £250,000, yn darparu cymorth ariannol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig yn ogystal â busnesau sy'n bodoli eisoes.

Rhoddodd y Cyngorydd Bevan fanylion am y Grant Cynnal Canol y Dref, cynllun sydd, hyd yma, wedi cymeradwyo buddsoddiad o £121,000 ar draws trefi'r Sir. Cyfeiriodd at y Rhaglen Fuddsoddi Adfywio wedi'i Thargedu, sydd wedi cefnogi gwelliannau i adeiladau masnachol a chreu unedau preswyl yng nghanol tref Pontypridd ac at ddatblygiad yr YMCA yn ogystal â'r buddsoddiad o £9.3 miliwn i greu unedau ffatri modern newydd sydd eu hangen yn Coed-elái.

I gloi, darparodd y Cyngorydd Bevan fanylion am yr Ardal Gwella Busnes (AGB), mecanwaith llwyddiannus lle mae masnachwyr yn penderfynu ar yr hyn sydd ei angen ac yn codi ardoll. Gyda chefnogaeth gan gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi bod yn cefnogi datblygiadau AGB pellach fel Treorci, ac mae proses arall wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn Aberdâr. Cyfeiriodd at y ganolfan gymorth a agorwyd yn ddiweddar ganddo ef a'r Dirprwy

Arweinydd a fydd yn cynnig cyngor sylweddol i fusnesau.”

Nid oedd gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S Morgans unrhyw gwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.Grehan i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

“Hoffwn i wneud cais i'r aelod cabinet priodol i wneud datganiad ar bolisi'r cyngor ar oleuadau stryd.”

“I'd like to ask the relevant cabinet member to make a statement on the Council's policy on street lights.”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Atebodd y Cyngorydd Morgan gan ddweud fod y Cyngor wedi penderfynu, ym mis Mai 2014, mewn ymateb i gyfyngiadau ar y gyllideb, y byddai trefn goleuadau nos rannol, rhwng 12pm a 5am, yn cael ei chyflwyno i gynorthwyo'r defnyddwyr y priffyrdd. Ni fyddai'r drefn hon yn effeithio ar ardaloedd sensitif fel canol trefi a chyffyrdd. Atgoffodd y Cyngorydd Morgan yr Aelodau nad oes gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu goleuadau stryd.

Ychwanegodd y Cyngorydd Morgan fod y Cyngor yn trosi ei stoc gyfan o oleuadau stryd i hyrwyddo ei arbedion refeniw.”

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan

“Gofynnodd y Cyngorydd Grehan i'r Arweinydd a allai'r Cyngor gynorthwyo dau breswlydd yn ei ward sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys, un yn heddwes, a'r llall yn nyrs sydd â phryderon am ddychwelyd adref o'r gwaith yn y tywyllwch oherwydd y drefn oleuadau rannol yn y nos. Ychwanegodd y Cyngorydd Grehan fod yr heddwes wedi cael ei ddilyn adref o Gaerdydd yn y gorffennol. ”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Gofynnodd y Cyngorydd Morgan i'r Cyngorydd Grehan am ragor o wybodaeth am yr achosion penodol ond ychwanegodd pe bai goleuadau'n cael eu symud mewn rhai ardaloedd byddai'r goleuadau'n mynd allan mewn ardaloedd eraill. Roedd y Cyngorydd Morgan yn gobeithio bod Heddlu De Cymru wedi ymchwilio i bryder bod yr heddwes yn cael ei ddilyn adref”.

Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"Beth yw pwrpas Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Rhoddodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A Morgan drosolwg o rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: -

- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol i Aelodau'r Cynulliad ac yn ceisio gwella ac amddiffyn enw da cynghorau a sicrhau newid cadarnhaol i ddeddfwriaeth;

- Mae llawer o waith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn canolbwyntio ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol eraill. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cysylltu â Swyddfa Cymru ac yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithasol Llywodraeth Leol yn Llundain i geisio dylanwadu ar bolisiau a deddfwriaeth heb ei datganoli ac, yn benodol, ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud â Brexit. Mae gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, a sefydliadau cenedlaethol a llywodraethol eraill;
- Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli pob un o'r 22 Awdurdod Lleol sy'n cydweithio'n dda;
- Ymhlith y meysydd gwaith allweddol mae cyfarfodydd dwyochrog rhwng Llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman:

“Tynnodd y Cynghorydd Jarman sylw, fel un o chwe deg chwech o feincwyr cefn, na allai gofio bod y Weithrediaeth yn adrodd yn ôl yn fanwl gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru trwy fwletinau rheolaidd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at ethol Arweinydd newydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddydd Gwener a dadl ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â Phwyllgorau ar y Cyd (CJC) a gofynnodd am esboniad beth yw CJC, beth yw eu swyddogaethau a phryd y cânt eu sefydlu? ”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

“Esboniodd y Cynghorydd Morgan fod trafodaethau'n parhau ond cyfeiriodd at argaeledd dogfen ganllaw 451 tudalen a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Cyrff hynny y mae'r Awdurdodau Lleol wedi'u cyd-gynhyrchu. O ran adborth, dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y broses yr un fath ag y mae gyda chyfarfodydd Cabinet y Cyngor, cyhoeddir agendâu ac adroddiadau cyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor ar gyfer mynediad cyhoeddus a gall unrhyw un fynychu'r cyfarfod.”

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Griffiths i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

“A allwch chi wneud datganiad yn amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd i ehangu'r rhwydwaith o bwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan ar draws yr Awdurdod, a beth yw amserlen yr ehangu, mewn ymateb i'r galw cynyddol a'r defnydd o geir trydan a hybrid?”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

“Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod hwn yn faes datblygu ac mae nifer o opsiynau yn cael eu hystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd. Atgoffodd y Cynghorydd Crimmings yr Aelodau fod y Gweithgor Trosolwg a Chraffu wedi cynnal adolygiad manwl o ddatblygiad yr isadeiledd i gefnogi perchnogaeth cerbydau carbon isel yn RhCT o ganlyniad i Rybudd o Gynnig a gynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorwyr M Griffiths a J Bonetto yn y drefn honno. Mae'r argymhellion wedi cael eu hadrodd i'r Cyngor a bydd y Cabinet yn ymateb i'r argymhellion hynny yn fuan”.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Griffiths:

“Gofynnodd y Cynghorydd Griffiths pam nad yw'r Cyngor hwn wedi manteisio ar y cyllid sydd ar gael fel y mae Awdurdodau Lleol eraill, fel Cyngor Sir Fynwy sydd wedi elwa o £500,000. Cydnabu'r Cynghorydd Griffiths, er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud yn RhCT, nid yw'r Cyngor wedi datblygu'r gwaith hwn ”

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

“Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings, gan fod y nifer sy'n defnyddio Cerbydau Carbon Isel yn isel yn RhCT a bod y dechnoleg a'r isadeiledd yn datblygu mor gyflym, mae'r Cyngor yn gwerthuso'r opsiynau sydd ar gael iddo”

85 Trafodaeth ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Llywydd yr hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor, wedyn byddai'n ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Agorodd yr Arweinydd ei anerchiad trwy nodi bod y ddadl hon yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol y Cyngor a chyflawniad y Cyngor yn erbyn yr amcanion hynny. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi ystyried ei gynnydd mewn perthynas â'r meysydd hyn yn ddiweddar ac, ar hyn o bryd, yn cynnal ymgynghoriadau â phreswylwyr ar gyfer y Cynllun Corfforaethol drafft newydd. Anogodd yr Arweinydd yr Aelodau i ddweud eu dweud ac annog preswylwyr i wneud yr un peth i wneud gwahaniaeth yn yr ardaloedd sydd bwysicaf i'n cymunedau.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau, yn dilyn naw mlynedd o gynt cyllidol, bod addysg a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaethau, er bod y gwasanaethau hyn dan bwysau trwy ffactorau fel tâl athrawon a chostau pensiwn, poblogaeth sy'n byw'n hirach ac sydd ag anghenion mwy cymhleth, a chwyddiant.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Clywodd yr Aelodau fod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth foderneiddio'r system ofal a ddarperir ar gyfer preswylwyr hŷn yn y Sir, a chadarnhawyd y bydd datblygiad Maesyffynnon yn Aberaman yn agor yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r gwaith adeiladu hefyd yn gwneud cynnydd da ar gynllun Gofal Ychwanegol Pontypridd yn y Graig, tra bod opsiynau dylunio ar gyfer Porth a Treorchy yn cael eu hystyried. Amlinellodd yr Arweinydd y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, sy'n parhau i helpu ein Gwasanaeth Iechyd trwy helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a gadael yr ysbyty cyn gynted â phosibl. Yn 18/19, cefnogodd y gwasanaeth 664 o bobl a gafodd eu hatgyfeirio ac roeddent wedi cefnogi 261 arall rhwng Ebrill a Hydref eleni.

O ganlyniad i'r Gronfa Bontio a gafodd ei sicrhau'n ddiweddar, cafodd yr Aelodau wybod y bydd y gwasanaeth yn cael ei ehangu drwy garfan Ymateb Brys Cadw'n Iach Gartref. Bydd hyn yn galluogi amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaeth un diwrnod i helpu pobl fyw yn eu cartrefi. Mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at bobl sydd ddim angen mynd i'r ysbyty, ond sydd angen cymorth ychwanegol i ymdopi yn y cartref. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gynllun arall a gaiff ei lansio drwy'r cyllid yma, a fydd yn ehangu'r Llinell Gymorth Technoleg Gynorthwylol - gan ddarparu ymatebion brys 24 awr y dydd,

365 diwrnod y flwyddyn, i drigolion sydd wedi cwmpo neu ddefnyddio'u dyfais i alw am gymorth. Mae hyn eto'n helpu pobl i fyw'n annibynnol ac yn rhoi sicrwydd iddyn nhw fod help ar gael bob amser.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wrthi'n darparu 1,360 o becynnau Gofal yn y Cartref, a hynny am gyfanswm o 16,528 awr yr wythnos. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu 565 o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer 169 o blant a 396 o oedolion am gyfanswm o 9,431 awr yr wythnos. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi darparu 190 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer 174 o oedolion a 16 o blant. Cafodd 379 o grantiau eu darparu y llynedd, a 310 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r grant ENABLE wedi rhoi cymorth i 1.423 o bobl ers 2017, a hynny am gost o £316,000. Eleni, mae'r cynllun wedi rhoi cymorth i 197 o bobl am gost o £76,000 hyd yma. Hyd yma, mae £45,000 wedi'i wario ar gynllun Tasgmon y Cyngor, o'i gymharu â'r £60,000 a gafodd ei wario yn 2017/18 a 2018/19. Mae 22 o Grantiau Cymorth Trwsio, Cynnal a Chadw wedi'u cwblhau hyd yma eleni, am gost o £102,778.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i drafod Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth y Cyngor, sy'n parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd mewn argyfwng. Roedd 1,608 o atgyfeiriadau yn 18/19 O blith y rhain, roedd 398 o'r rhain yn hunan-atgyfeiriadau gan y Garfan Plant Anabl, ac roedd 306 yn achosion a oedd wedi'u hisraddio. Dim ond 6% o'r atgyfeiriadau oedd angen eu hatgyfeirio ymhellach. Ychwanegodd yr Arweinydd fod 1011 o atgyfeiriadau wedi bod i'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth hyd yma. Roedd 222 o'r rhain yn hunan-atgyfeiriadau, 7 yn atgyfeiriadau uniongyrchol o'r Garfan Plant Anabl, a 265 yn achosion a gafodd eu hisraddio. Unwaith eto, mae 6% o'r achosion wedi'u huwchgyfeirio at y Gwasanaethau i Blant.

Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf yn uwch na'r niferoedd mewn llawer o Awdurdodau Lleol eraill, clywodd yr Aelodau nad yw'r nifer hwnnw wedi cynyddu yn yr un modd â'r niferoedd mewn llawer o Awdurdodau Lleol eraill. Mae niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal ledled Cymru wedi bod yn cynyddu dros y misoedd diwethaf, gyda chynnydd o 3% ar y niferoedd a gafodd eu nodi ym mis Mawrth 2019. Mae data Cymru gyfan a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar yn nodi bod 14 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi gweld cynnydd yn niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal fesul pob 10,000. Dydy'r niferoedd ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddim wedi newid.

Addysg

O ran cyrhaeddiad, nododd yr Arweinydd fod cyflawniad ysgolion RhCT wedi aros fwy neu lai yr un fath ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae cwmp o 2.6% o bwyntiau wedi bod yng nghyfaraledd y Dangosydd Deilliannau ledled Cymru, ac mae bellach ar 80.0% Mae hyn yn bennaf yn dilyn rhoi deilliannau newydd ar waith ar gyfer y Fframwaith Asesu. Serch hynny, mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny sydd ddim yn gymwys wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn wir am Gyfnod Allweddol 2 hefyd, lle mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched wedi cynyddu rhywfaint. Serch hynny, yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny sydd ddim yn gymwys wedi lleihau. Er hynny, mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched wedi cynyddu ar gyfer pob pwnc craidd.

Aeth yr Arweinydd ati i atgoffa'r Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno

mesurau dros dro ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, sydd â'r bwriad o greu darlun gwell o'r profiad dysgu yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â chynnydd y dysgwyr. Mae'r deilliannau disgywliedig yn awgrymu bod nifer y graddau A*-C y mae disgyblion yn RhCT yn eu cael wedi cynyddu o 1.2% o bwyntiau. Mae nifer y disgyblion sy'n ennill graddau A*-G hefyd wedi cynyddu o 0.8% o bwyntiau. O ran Safon Uwch, llwyddodd 69.1% o'r dysgwyr i ennill graddau A-E, gyda 70.3% o'r rheiny yn ennill graddau A*-C. Llwyddodd bron 20% i ennill graddau A*-A, a nifer y dysgwyr a gyrhaeddodd trothwy Lefel 3 oedd 98.3% - sy'n gynydd o 2.1% ers 2018.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn parhau i fonitro cyflawniad a chyrhaeddiad yn agos ym mhob Cyfnod Allweddol, a'i fod yn cydnabod fod hwn yn faes i'w wella. Yn yr un modd, mae'r Cyngor yn cydnabod fod lle i wella o ran presenoldeb, yn arbennig mewn Ysgolion Uwchradd. Lefel presenoldeb yr Ysgolion Cynradd yw 94.3% - sy'n gwymp o 0.3% ers 16/17. Serch hynny, mae'r bwlch rwyg y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheiny sydd ddim yn gymwys wedi lleihau, ac mae bellach yn 2.2%. Er hynny, mae'r lefel presenoldeb o 94.3% yn is na'n targed uchelgeisiol o 95.1%. Dros yr un cyfnod, mae presenoldeb yn yr Ysgolion Uwchradd wedi cwmpo o 0.7% i lawr i 92.8%. Mae hyn yn golygu ei fod 1% yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn is na tharged y Cyngor o 94.1%. Mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheiny sydd ddim yn gymwys wedi lleihau rhywfaint.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod addysg yn dal i fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor, a bod ei ymrwymiad i ychwanegu £5.2 miliwn at Gyllideb yr Ysgolion eleni yn profi hynny. Mae'r cam Band A o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd werth £173.4 miliwn, wedi darparu cyfleusterau dysgu newydd sbon yn Nhonyrefail, Tonypanyd a Chwmaman, ymhlith eraill. Mae'r Cyngor bellach yn bwrw ymlaen â cham Band B, a fydd yn creu ysgolion newydd yng ngogledd Cwm Cynon ac Ardal Ehangach Pontypridd. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y rhaglen flynyddol o waith cyfalaf a refeniw, ac yn 2018, cafodd gwerth £9.7 miliwn o waith cyfalaf wedi'i gynllunio a £3 miliwn o waith refeniw (materion cynnal a chadw bach) ei gyflawni mewn ysgolion ledled y sir.

I gloi ei ddiweddariad am y sector yma drwy ddweud bod y Cyngor hefyd wedi ymrwymo'n gryf i wella'r ddarpariaeth gyfwng Gymraeg ledled RhCT, gan ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol er mwyn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion yn y sir. Mae hyn yn cynnwys creu ysgolion newydd ar gyfer Llyn-y-Forwyn, y Dolau a Chwm Rhondda, gan adeiladu ar y capasiti ychwanegol a gafodd ei greu yn Ysgol Garth Olwg a Llwyncelyn ac a fydd yn cael ei ddarparu yn Rhydywaun ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr.

Priffyrdd a Thrafnidiaeth

Trafododd yr Arweinydd y cynnydd sylweddol o ran buddsoddi mewn trafndiaeth drwy'r rhaglen gyfalaf a'r rhaglen 3 blynedd gwerth £23.5 miliwn. Mae mwy na 2,000 o ffyrdd cerbydau, 370 o lwybrau troed a 39 o strwythurau wedi'u gwella ers 2011/12, ac mae mwy na 100 o ffyrdd cerbydau a 24 o lwybrau troed wedi'i gwella yn y flwyddyn yma yn unig. Caiff 3 strwythur arall eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ychwanegodd mai dim ond 4.8% o'r ffyrdd oedd angen gwaith cynnal a chadw, a bod hyn wedi cyfrannu at fuddsoddiad sylweddol o £1.17 miliwn y flwyddyn yn seiliedig ar gostau hawliadau cyfartalog yn 19/19. Cyfradd cyfredol y Dangosydd Cyflwr Pontydd yw 76%.

Amlinellodd yr Arweinydd nifer o gynlluniau sylweddol fel gwella'r A4119 a Chynllun Porth Cwm Cynon, gan nodi bod y Cyngor wedi cynnal trafodaethau helaeth â Llywodraeth Cymru ynglŷn â sicrhau rhagor o gyllid.

Hamdden, Parciau ac Ardaloedd Chwarae

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod 111 o ardaloedd chwarae wedi'u hehangu ers 2015, a hynny ym mhob ward. Mae disgwyl i waith ar 115 o ardaloedd chwarae gael ei gwblhau erbyn diwedd 2019/20, sy'n golygu bod 51% o stoc y Cyngor wedi derbyn buddsoddiad o bron £4 miliwn. Mae £400k pellach wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau gwella yn yr 13 o fynwentydd yn RhCT. Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau mai dyma'r ail flwyddyn i weld buddsoddiad sylweddol yn isadeiledd y parciau, ac mae mwy na £1.5 wedi'i ymrwymo hyd yma. Mae hyn yn cynnwys gwaith i wella draenio caeau chwaraeon, gwella clwydi a ffensys, waliau, llwybrau, ffosydd a strwythurau, yn ogystal â gwaith i'r man gwerysilla, y llwybrau beicio a'r parc antur ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.

Canolfannau yn y Gymuned

Aeth yr Arweinydd ati i atgoffa'r Aelodau fod nifer o Ganolfannau yn y Gymuned wedi agor yn ddiweddar, er enghraifft y Ganolfan yn Aberpennar. Mae'r ganolfan hon yn boblogaidd iawn, a llwyddodd i ddenu 62,000 o ymweliadau rhwng mis Mehefin a mis Hydref. Roedd 34,470 o ymweliadau â'r llyfrgell, sef dwbl y nifer a oedd yn ymweld â'r llyfrgell flaenorol. Mae 79 o blant wedi cofrestru â'r llyfrgell yng Nghanolfan Glynrhedynog, sydd dan arweiniad Partneriaeth Fern, ers agor y ganolfan. Mae cynnydd o 41% wedi bod yn nifer yr ymwelwyr â'r llyfrgell. Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddatblygiad Llys Cadwyn, a fydd yn gartref i Ganolfan i'r Gymuned, gan gynnwys llyfrgell, caffi a gwasanaeth iBobUn pan fydd y safle'n barod.

Canol trefi

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn parhau i ddangos ei ymrwymiad parhaus i gefnogi canol ei drefi. Mae nifer o achlysuron Nadolig yn cael eu cynnal yn ogystal â'r fenter parcio am ddim, a fydd yn dychwelyd eleni - roedd achlysur yn Nhonypandy y penwythnos diwethaf ac mae digwyddiad yn Aberpennar y penwythnos nesaf.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi sicrhau £1 miliwn o arian grant ar gyfer y rhaglen TRI i greu adeiladau ac unedau preswyl newydd ar y stryd fawr a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes. Yn ddiweddar, mae hefyd wedi cymeradwyo cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes er mwyn helpu hyd at 500 o fusnesau ledled y Sir i dalu eu hardrethi busnes yn y flwyddyn ariannol nesaf

Y Cynllun Corfforaethol. Cyllideb, Tlodi a'r Amgylchedd

Dywedodd yr Arweinydd fod buddsoddi a chyflawni prosiectau yn bodloni nodau'r Cynllun Corfforaethol, gyda'r cynllun cyfredol ar fin dod i ben, mae'r Cyngor wedi cychwyn ymgynghori ar y blaenoriaethau ar gyfer cyfnod nesaf y cynllun. Lanswyd hwn ochr yn ochr â cham cyntaf ymgynghoriad cyllideb blynyddol y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd nad yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw doriadau gwasanaeth o gwbl, ac mae'n edrych i wneud Treth y Cyngor 3% yn uwch. Mae'n debyg mai hwn fydd y cynnydd isaf yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn

olynol. Ers pedair blynedd yn olynol, RhCT sy'n gyfrifol am sicrhau'r cynnydd lleiaf yn lefelau Treth y Cyngor ar gyfer ei drigolion. Mae Awdurdodau Lleol eraill yn gweld cynnydd o fwy na dwbl y ffigur hwnnw.

Pwysleisiodd yr Arweinydd ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor fod yn fwy cyfrifol o safbwynt amgylcheddol fel sefydliad, a hynny i sicrhau y gall gyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Amlinellodd yr Arweinydd fesurau ecogyfeillgar y Cyngor, er enghraifft, mae holl Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor wedi'u hadeiladu i safon uchel a chyda ôl troed carbon is, mae'r holl ynni yn adeiladau'r Cyngor yn dod o ffynonellau adnewyddadwy ac mae nifer sylweddol o oleuadau stryd wedi'u trosi'n rhai LED ynni effeithlon.

Gorffennodd yr Arweinydd ei drosolwg gan ychwanegu y byddai'r Cyngor, dros y flwyddyn ariannol nesaf, yn parhau i fwrw ymlaen â'r mesurau hyn, a chanolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â thlodi yn ei gymunedau.

Ymatebodd yr Arweinydd i nifer o gwestiynau/sylwadau gan yr Aelodau, yn ymwneud â:-

- Gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor trwy wella mesurau craffu;
- Amserlen Llinellau'r Cymoedd a'r Metro - yr Arweinydd i drafod capasiti gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru, sy'n perfformio'n dda ac sydd ar y trywydd iawn. Gwasanaethau estynedig ar ddydd Sul;
- Ffordd Blaenau'r Cymoedd A4065- Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau y bydd y cynllun yn parhau ar sail materion diogelwch ar y ffyrdd;
- Diweddariad ar Ddatblygiad Coed-elái - Bydd y 18 mis nesaf yn gweld gwelliannau sylweddol;
- Ymyriadau pellach ar waith gan y Cyngor i fynd i'r afael â thlodi plant:
 - Adnewyddu eiddo gwag at ddefnydd teuluoedd;
 - Gwasanaethau bws mini Rhondda Fach i gludo gweithwyr i'w gweithle;
 - Bydd ymyriadau a mesurau pellach yn cael eu dwyn ymlaen i ddylanwadu ar Dasglu'r Cymoedd.
- Diweddariad ar Bont Troed Tyntyla - Mater heriol oherwydd ei erydiad a'i dir ansefydlog, mae angen darparu rhagor o fanylion;
- Eglurhad ar welliannau Parc Gwledig Cwm Dâr - Mae cynnydd cadarnhaol yn mynd rhagddo, gyda nifer o ddatblygiadau i'r parc megis cynnydd mewn ardaloedd carafanau a maes chwarae antur newydd. Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y buddsoddiad ac unrhyw ddatblygiadau tai yn y dyfodol gan nad yw'r ffordd yn briffordd gyhoeddus.
- Twannel Rhondda - Yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae twannel Abernant yn gymwys i gael cyllid teithio llesol.
- Canol Tref y Porth - Bydd y prosiect cyfalaf cyntaf o gyllid y Fargen Ddinesig ar gyfer cynllun adfywio canol tref Porth a chreu canolbwynt trafniadaeth newydd, y cyntaf o lawer i ddod;
- Presenoldeb ysgolion - Cydnabod y cwmp mewn lefelau presenoldeb yn y cynradd a'r uwchradd, ond mae angen ystyried y cynnydd mewn gwyliau yn ystod y tymor yn lleol ac ar lefel Genedlaethol;
- Diffibrilwyr - Parhau i godi arian a chyflwyno diffibrilwyr yn adeiladau a llyfrgelloedd y Cyngor, cefnogaeth i'r ymgyrch i'w cael ym mhob ysgol;
- Ailgylchu yn RhCT - Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd addysg a chynnwys plant yn y broses, mae ffigurau'n dangos cynnydd o ychydig o dan 70% yn y pedwar mis cyntaf;
- Safoni ffyrdd heb eu mabwysiadu - Cyfres o gyfarfodydd gyda Phwyllgor

Economaidd a Seilwaith Llywodraeth Cymru a Datblygwyr i fynd i'r afael â'r mater.

86 Rhaglen Waith y Cyngor

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu ddiweddariad byr i'r Aelodau ar raglen waith y Cyngor gan roi gwybod y byddai'r eitemau canlynol yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr:-

- Adroddiad ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn canlyniad yr Isetholiad ar 5 Rhagfyr 2019;
- Derbyn diweddariad gan y sawl sydd wedi'u henwi'n Hyrwyddwr Materion yr Hinsawdd o blith yr Aelodau a'r Swyddogion mewn perthynas â gwaith Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd.
- Adroddiad ar Gyfrifon Deddf yr Eglwys yng Nghymru; a
- Adolygiad o Dosbarthau Etholiadol, Lleoedd Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio 2019 - bydd yr adroddiad yn darparu canlyniad yr adolygiad statudol o Dosbarthau Etholiadol, Lleoedd Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio yn etholaethau'r Awdurdod Lleol ac Etholaethau Seneddol Cwm Cynon, Pontypridd, Cwm Rhondda ac Ogwr.

87 Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli'r Trysorlys 2019-20

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol wedi rhoi Gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â'r canlynol: -

- Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 6 mis cyntaf 2019/20; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer yr un cyfnod

Ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

88 Adroddiad Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf

Trwy ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gyfle i'r Aelodau gymeradwyo cynnwys a chasgliadau Adroddiad Adolygu CDLI Rhondda Cynon Taf, sy'n amlinellu'r rhesymau dros baratoi CDLI diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf, a'r angen i ddechrau ar y gwaith. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol RhCT yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol â'r hyn y cytunwyd arni, ac yn unol â'r amserlen sydd wedi'i nodi yng Nghytundeb Cyflenwi Drafft y CDLI Diwygiedig.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad sy'n nodi ystyriaethau a chasgliadau allweddol adolygiad llawn ffurfiol y CDLI gyda'r Cyfarwyddwr yn nodi mai'r adroddiad nesaf i'w ystyried fyddai'r cytundeb Cyflenwi CDLI diwygiedig, yn amodol ar gytundeb y Cyngor. Mae'r cytundeb yma yn nodi'r amserlen fwyaf priodol (paratoi a chyflenwi CDLI diwygiedig sy'n cymryd dim hwy na thair mlynedd a hanner o'i gychwyn i'w fabwysiadu), cyllideb, staffio ac adnoddau eraill sy'n ofynnol i baratoi adolygiad llawn y CDLI.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo cynnwys a chasgliadau Adroddiad Adolygu CDLI Rhondda Cynon Taf, sy'n amlinellu'r rhesymau dros baratoi CDLI diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf ar gyfer y cyfnod 2020 i 2030, a'r angen i ddechrau ar y gwaith, yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi Drafft arfaethedig. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r amserlen sydd wedi'i nodi yng Nghytundeb Cyflenwi Drafft Diwygiedig cysylltiedig y CDLI, ac yn unol â hi; a
2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ystyried sut y gallai'r cynigion gan y Gweithgor Trosolwg a Chraffu, a sefydlwyd i ystyried sut y gallai seilwaith rheilffyrdd a thrafnidiaeth ddatblygu yn y dyfodol gyda dyfodiad Metro De Cymru o 2022, ategu a chyfrannu tuag at adolygiad y CDLI gan y Cyngor.

89 Cynigion am Gytundeb Cyflenwi Drafft ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ei adroddiad a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor mewn perthynas â'r Cytundeb Cyflenwi Drafft ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLI) Rhondda Cynon Taf. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Cytundeb Cyflenwi drafft yn nodi'r amserlen arfaethedig a'r cynllun arfaethedig ar gyfer cynnwys y gymuned ar gyfer paratoi CDLI diwygiedig.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at yr adrannau yn yr adroddiad a oedd yn nodi elfennau hanfodol y Cytundeb Cyflenwi drafft ar gyfer CDLI diwygiedig RhCT, yn enwedig yr amserlen rheoli prosiect, y cynllun ar gyfer cynnwys y gymuned, adnoddau a chyllideb gadarn. Rhoddodd gadarnhad i'r Aelodau y byddai'r wybodaeth fwyaf cyfredol yn cael ei hystyried wrth baratoi CDLI diwygiedig.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf, sy'n amlinellu'r amserlen a'r dull o gynnwys y gymuned ac ymgysylltu â nhw ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf; a
2. Cytuno i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo (yn unol â'i amserlen), ochr yn ochr ag Adroddiad Adolygu'r CDLI.

90 Deddf Trwyddedu 2003 - Datganiad Polisi Trwyddedu 2020-2025

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned Ddatganiad Polisi Trwyddedu newydd y Cyngor (Alcohol, Adloniant a Lluniaeth Hwyr y Nos) 2020–2025 i'r Aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y polisi'n destun adolygiad bob pum mlynedd a bod y dyddiad ar gyfer adolygu a chyhoeddi diwygiadau yn ffurfiol ar ddod, felly mae'n angenrheidiol i'r polisi llawn gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn gyda'r bwriad y bydd yn dod i rym o 7 Ionawr 2020.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at adran 4 yr adroddiad, a roddodd

grynodeb o'r newidiadau allweddol i'r polisi sydd wedi'u hymgorffori yn y fersiwn newydd i adlewyrchu deddfwriaeth.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwyddedu (Alcohol, Adloniant a Lluniaeth Hwyr y Nos) 2020-2025 fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar yr 17 Hydref 2019 gyda'r bwriad y bydd y Datganiad newydd yn dod i rym o 7 Ionawr 2020.

91 Cymuned ar y Cyd – Diwygio'r Siarter

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i'r Aelodau am y diwygiadau sydd wedi'u gwneud i'r 'Siarter Enghreifftiol – Cymuned ar y Cyd' a oedd wedi'i gytuno'n wreiddiol yn y Cyngor ar y 12 Ionawr 2011. Cafodd yr Aelodau wybod bod y diwygiadau wedi'u gwneud er mwyn cwmpasu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ac i ymgorffori egwyddorion a nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 5 yr adroddiad, sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r Cynghorau Cymuned a Thref i gryfhau partneriaethau trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau ynghylch anghenion a chymorth hyfforddiant. Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd lansio'r porth Aelodau newydd yn hwyluso gwell cyfathrebu â'r Cynghorau Cymuned a bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor hefyd yn adnodd ychwanegol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno i'r diwygiadau i'r "Siarter Enghreifftiol" sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad a oedd wedi'u teilwra i gyd-fynd ag anghenion yr Awdurdod a'r Cynghorau Cymuned a Thref yn Rhondda Cynon Taf; a
2. Cytuno i barhad y Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned, dan gadeiryddiaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor.

92 Y Gofrestr Fwyd yn Rhondda Cynon Taf - Diweddarau'r Rhybudd o Gynnig

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cyngor am ganfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu a sefydlwyd i ddelio â'r 'Gofrestr Bwyd yn RhCT' yn dilyn Rhybudd o Gynnig a gytunwyd gan y Cyngor ar 24 Hydref 2018. Cafodd yr Aelodau wybod y byddai ymateb y Cabinet i'r argymhellion yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad ym mis Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi gwaith y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad mewn perthynas â'r gwaith a gynhaliwyd yn dilyn y Rhybudd o Gynnig y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cyngor, fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad; a
2. Nodi bod y pum argymhelliad a ddeilliodd o'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad wedi'u cyflwyno i'r Cabinet ar yr 17 Hydref 2019 fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad gwreiddiol.

- A. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees, J. Bonetto, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, G. Jones, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S Pickering, S. Powell, S. Powderhill, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Mae ein cymunedau wedi defnyddio Tân Gwyllt i ddathlu achlysuron fel Noson Tân Gwyllt a Nos Galan yn ein cymunedau ers blyneddau maith. Mae effaith Tân Gwyllt yn peri pryder cynyddol i breswylwyr sydd, naill ai'n berchen ar anifeiliaid anwes, neu wedi gweithio yn y Lluoedd Arfog ac yn dioddef o PTSD.

Mae RSPCA Cymru wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a pheri llai o niwed a straen i anifeiliaid drwy gynnig mabwysiadu polisi sy'n arddel gwerthu tân gwyllt yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â tân gwyllt tawel, a fyddai'n gyfaddawd sy'n gadael i'n cymunedau ddathlu achlysuron allweddol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a pharchus.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn am adroddiad Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet, sy'n amlinellu sut y mae modd i'r awdurdod lleol yma gefnogi ymgyrch yr RSPCA trwy:

- Ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i bob achlysur tân gwyllt cyhoeddus o fewn ffin yr awdurdod lleol gael ei hysbysebu ymlaen llaw, gan roi cyfle i breswylwyr gymryd camau i ddiogelu eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.

- Ystyried lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed - gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau'r risgiau.

- Ystyried annog cyflenwyr tân gwyllt lleol i werth tân gwyllt sy'n fwy tawel, a hynny ar gyfer achlysuron cyhoeddus yn unig.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn cytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ei hannog i ddefnyddio unrhyw rym o fewn ei gallu i leihau'r effaith negyddol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i nosweithiau tân gwyllt.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r ymrwymiad cryf i les anifeiliaid y mae'r awdurdod eisoes wedi'i arddel drwy gefnogi ymgyrch Lucy's Law, yn ogystal â'i ymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd noson sinema ei chynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Noson Tân Gwyllt eleni er budd cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD. Mae'r Cyngor yma'n nodi bod Pwyllgor Nos Galan wedi arwain ar y gwaith yma drwy gytuno i ailystyried y defnydd o dân gwyllt yn yr

achlysur ar gyfer 2020/2021.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Cynigydd), G. R. Davies (Eilydd), E. Webster, J. Davies, J. Cullwick, J. Williams, A. Cox, H. Fychan, D. Grehan, E. Griffiths, K. Morgan, S. Rees Owen, M. Weaver, S. Evans, A. Chapman, L. Jones ac E. Stephens:

Mae ein cymunedau wedi defnyddio Tân Gwylt i ddathlu achlysuron fel Noson Tân Gwylt a Nos Galan yn ein cymunedau ers blynyddoedd maith. Mae effaith Tân Gwylt yn peri pryder cynyddol i breswylwyr sydd, naill ai'n berchen ar anifeiliaid anwes, neu sy'n bobl agored i niwed sy'n byw ag awtistiaeth, neu wedi gweithio yn y Lluoedd Arfog ac yn dioddef o PTSD.

Mae RSPCA Cymru wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a pheri llai o niwed a straen i anifeiliaid drwy gynnig mabwysiadu polisi sy'n arddel gwerthu tân gwylt yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â tân gwylt tawel, a fyddai'n gyfaddawd sy'n gadael i'n cymunedau ddathlu achlysuron allweddol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a pharchus.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn am adroddiad Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet, sy'n amlinellu sut y mae modd i'r awdurdod lleol yma gefnogi ymgyrch yr RSPCA trwy:

-Ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i bob achlysur tân gwylt cyhoeddus o fewn ffin yr awdurdod lleol gael ei hysbysebu ymlaen llaw, gan roi cyfle i breswylwyr gymryd camau i ddiogelu eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.

-Ystyried lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tân gwylt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed - gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau'r risgiau.

-Ystyried annog cyflenwyr tân gwylt lleol i werth tân gwylt sy'n fwy tawel, a hynny ar gyfer achlysuron cyhoeddus yn unig.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn cytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ei annog i ddefnyddio unrhyw rym o fewn ei allu i leihau'r effaith negyddol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i nosweithiau tân gwylt.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r ymrwymiad cryf i les anifeiliaid y mae'r awdurdod eisoes wedi'i arddel drwy gefnogi ymgyrch Lucy's Law, yn ogystal â'i ymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd noson sinema ei chynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Noson Tân Gwylt eleni er budd cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD.

Mae'r Cyngor yma'n nodi bod Pwyllgor Nos Galan wedi arwain ar y gwaith yma drwy gytuno i ailystyried y defnydd o dân gwylt yn yr achlysur ar gyfer 2020/2021.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd bod y cynigydd a'r eiliwr yn ystyried cynnig

newid i'r Cynnig i gynnwys y gair 'awtistiaeth'.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r gwelliant.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a J. Davies yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio i fabwysiadu'r gwelliant i'r Rhybudd o Gynnig)

Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig fel y'i newidiwyd gan y Cynigydd (y Cynghorydd S. Rees) a'r Eilydd (y Cynghorydd J. Bonetto) a chyda chytundeb y Cyngor Llawn fel a ganlyn:-

Mae ein cymunedau wedi defnyddio Tân Gwylt i ddathlu achlysuron fel Noson Tân Gwylt a Nos Galan ers blynyddoedd maith. Mae effaith Tân Gwylt yn peri pryder cynyddol i breswylwyr, y sawl sydd ag Awtistiaeth, y sawl sy'n berchen ar anifeiliaid anwes, neu'r sawl sydd wedi gweithio yn y Lluoedd Arfog ac yn dioddef o PTSD er enghraifft.

Mae RSPCA Cymru wedi lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a pheri llai o niwed a straen i anifeiliaid drwy gynnig mabwysiadu polisi sy'n arddel gwerthu tân gwylt yn gyfrifol. Mae hyn hefyd yn ymwneud â tân gwylt tawel, a fyddai'n gyfaddawd sy'n gadael i'n cymunedau ddathlu achlysuron allweddol, gan sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd sensitif a pharchus.

Mae'r Cyngor felly'n gofyn am adroddiad Swyddog i'w ystyried gan y Cabinet, sy'n amlinellu sut y mae modd i'r awdurdod lleol yma gefnogi ymgyrch yr RSPCA trwy:

- Ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i bob achlysur tân gwylt cyhoeddus o fewn ffin yr awdurdod lleol gael ei hysbysebu ymlaen llaw, gan roi cyfle i breswylwyr gymryd camau i ddiogelu eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.

- Ystyried lansio ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tân gwylt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed - gan gynnwys gwybodaeth am sut i leihau'r risgiau.

- Ystyried annog cyflenwyr tân gwylt lleol i werth tân gwylt sy'n fwy tawel, a hynny ar gyfer achlysuron cyhoeddus yn unig.

Mae'r Cyngor yma hefyd yn cytuno i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn ei hannog i ddefnyddio unrhyw rym o fewn ei gallu i leihau'r effaith negyddol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i nosweithiau tân gwylt.

Mae'r Cyngor yma'n nodi'r ymrwymiad cryf i les anifeiliaid y mae'r awdurdod eisoes wedi'i arddel drwy gefnogi ymgyrch Lucy's Law, yn ogystal â'i ymrwymiad i gymuned y Lluoedd Arfog drwy Gyfamod y Lluoedd Arfog. Cafodd noson sinema ei chynnal yn Theatr y Parc a'r Dâr ar Noson Tân Gwylt eleni er budd cyn-filwyr sy'n byw gyda PTSD.

Mae'r Cyngor yma'n nodi bod Pwyllgor Nos Galan wedi arwain ar y gwaith yma drwy gytuno i ailystyried y defnydd o dân gwyllt yn yr achlysur ar gyfer 2020/2021.

94 Busnes Brys - Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu grynodedd o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) cychwynnol i'r Aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wrth yr Aelodau y bydd y mater yn destun trafodaeth gychwynnol yng Nghyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 29 Tachwedd 2019 ac roedd crynodeb manwl o'r Bil, a luniwyd gan y Gymdeithas, ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Cafodd yr Aelodau wybod y byddai Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod llunio safbwynt arfaethedig o ran y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn yn y dyfodol, mewn cyfarfod arbennig.

PENDERFYNWYD:

1. Cydnabod y crynodeb manwl o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fydd yn destun trafodaeth gychwynnol yng Nghyngor y Gymdeithas ar 29 Tachwedd 2019; a
2. Y bydd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn trafod llunio safbwynt arfaethedig o ran y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i'w gymeradwyo gan y Cyngor llawn yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55pm

**Y Cyngorydd S. Powderhill:
Cadeirydd**